## DEDDF CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1990
## CYNLLUNIO TREF A GWLAD (DATBLYGIAD CYFFREDINOL) GORCHYMYN 1995 - HYD HEDDIW
## DEDDF CYNLLUNIO A IAWNDAL 1991
## RHEOLIAD HYSBYSEBU CYNLLUNIO TREF A GWLAD 1994
## DEDDF CYNLLUNIO (ADEILADAU RHESTREDIG A CHADWRAETH) 1990
# CEISIADAU AM GANIATAD DATBLYGU

Adroddiadau ac argymhellion gan Swyddogion i'w hystyried a'u datrys gan Awdurdod Cynllunio'r Sir.

Bydd pob cais am y cynigion a nodir yn yr adroddiad hwn ar gael i'w archwilio gan Aelodau o'r Pwyllgor cyn ac yn ystod y cyfarfod lle ystyrir y ceisiadau.

Gellir gweld y Papurau Cefndir i bob cais, gan gynnwys ffurflenni, cynlluniau, gohebiaeth, Cynllun Datblygiad a dogfennau arweiniad yn ystod yr oriau swyddfa arferol.

COPIAU ATODIADAU AR GAEL GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 27 HYDREF 2004**
**Eitem: 3**

## MATERION GORFODAETH

(i) **ENF/2004/00052 -**
The Best, 16 Y Stryd Fawr, Prestatyn
Arddangos arwydd goleuedig ar y blaen y tu allan ac arwydd bocs mewnol wedi'u oleuo ac yn ymestyn allan**.**

**(ii) ENF/2004/00053 -**
Ruthin Kebab And Burger House, 54 Stryd y Ffynnon, Rhuthun
Rhoi cladin teils ceramig ar flaen y siop**.**

**(iii) ENF/2004/00012 -**
Rhan OS Rhif Caeau 5000 a 6300 Pen-y-bryn, Ffordd Glascoed, Llanelwy
Adeiladu anedd-dy.

**COPÏAU YCHWANEGOL AR GAEL**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**27 HYDREF 2004**
**RHIF EITEM 4**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO AC AMDDIFFYN Y CYHOEDD**

# ESTYNIADAU I SIOPAU FFATRI TWEEDMILL, TREFNANT

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Cynghori Aelodau ynglyn â chyflwyno apêl pan fydd caniatâd cynllunio wedi'i wrthod a gofyn am i gynrychiolaeth o Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio gael ymddangos ar ran y Cyngor yn yr apêl

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae'r Cyngor wedi gwrthod dau gais cynllunio am estyniadau i Tweedmill ym mis Medi 2003 a mis Medi 2004 oherwydd y gwrthdaro gyda pholisïau cynllunio mân werthu cenedlaethol a lleol.

2.2 Roedd yr ymgeisydd yn apelio'n erbyn y gwrthodiad cyntaf ond tynnwyd yr apêl honno'n ôl.

2.3 Mae'r ymgeisydd yn awr wedi apelio yn erbyn yr ail wrthodiad ac, ar hyn o bryd, trefnwyd ymchwiliad cyhoeddus ar gyfer 8 i 10 Chwefror 2005.

2.4 Roedd dau benderfyniad y Cyngor yn erbyn cyngor y swyddogion i roi caniatâd cynllunio.

## 3. YR APÊL CYNLLUNIO

3.1 Mae Cod Arfer Da i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n delio â Materion Cynllunio'n dweud ym mharagraff 9.3 y bydd disgwyl i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio roi tystiolaeth mewn apêl pan fydd argymhelliad swyddog wedi'i wrthdroi. Mae'r Cod Arfer Da yn dweud bod yn rhaid i'r Pwyllgor Cynllunio benodi cynrychiolwyr i roi tystiolaeth.

3.2 Hefyd, o safbwynt yr Aelodau sy'n ymddangos ar ran y Cyngor, argymhellir hefyd bod ymgynghorydd cynllunio mân werthu arbenigol a Chwnsler yn cynrychioli'r Cyngor. Bydd y gost i'r Cyngor i gael cynrychiolwyr o'r fath tua £20,000.

3.3 Yn olaf, dylai Aelodau fod yn ymwybodol pan fydd yn benderfyniad yn erbyn argymhelliad, ystyrir bod cost yr apêl, gan gynnwys y costau a

amlinellwyd ym mharagraff 3.2 uchod ac unrhyw ddyfarniadau costau yn erbyn y Cyngor, fel arfer yn cael eu hystyried fel gorwariant a ganiateir yn erbyn cyllideb y gwasanaeth.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio‘n penodi Aelod(au) i gynrychioli’r Cyngor yn yr Apêl sydd ar ddigwydd a bod y Pwyllgor Cynllunio’n cefnogi’r awgrym i gyflwyno achos y Cyngor fel yr amlinellwyd yn 3.2 uchod.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**27 HYDREF 2004**
**RHIF EITEM 5**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO AC AMDDIFFYN Y CYHOEDD**

# ADOLYGIAD O GYNLLUN DIRPRWYO AR GYFER CEISIADAU CYNLLUNIO

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 Adolygu'r cynllun dirprwyo ar gyfer ceisiadau cynllunio. Gofynnir i aelodau gefnogi argymhellion yr adroddiad hwn.

1.2 Mae angen adolygu'r cynllun dirprwyo presennol, a gymeradwy-wyd ym mis Tachwedd 2002, i alluogi'r Pwyllgor Cynllunio i ganolbwyntio ar ddelio â cheisiadau cymhleth neu ddadleuol.

## 2. CEFNDIR

2.1 Cymeradwy-wyd y cynllun dirprwyo presennol gan y Cyngor Llawn ym mis Tachwedd 2002 ac mae'n amlinellu lefelau dirprwyo i Bennaeth Gwasanaeth, y Pwyllgor Cynllunio a'r Cyngor Llawn.

2.2 Mae cyngor gan gyrff fel y Comisiwn Archwilio'n nodi gwerth dirprwyo i'r lefel isaf posibl gan alluogi effeithlonrwydd ac ymatebolrwydd wrth wneud penderfyniadau. Yn ddiweddar, mae'r Aelod Blaen wedi ymrwymo i wasanaethau nid proses. Mae'r cynllun dirprwyo presennol wedi gweithio'n dda drwy annog trafodaeth anffurfiol rhwng Aelodau a swyddogion a chaniatáu i swyddogion benderfynu ar 80% o geisiadau. Fodd bynnag, yn ddiweddar, mae cyflwyno cyfle i'r cyhoedd siarad wedi ymestyn hyd y cyfarfodydd. Mae mwyafrif cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio'n dal i gynnwys nifer sylweddol o geisiadau an-nadleuol lle nad oes unrhyw drafodaeth ac sy'n cael eu derbyn yn unol ag argymhelliad swyddog heb unrhyw drafodaeth. Er enghraifft, yn y ddau Bwyllgor Cynllunio diwethaf, ni chafwyd trafodaeth ar dros 50% o'r ceisiadau ar yr agenda. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r cyfarfodydd yn dal i fynd ymlaen am oriau gyda'r Pwyllgor Cynllunio ar 1 Medi'n para o 10.00 a.m. tan 3.30 p.m., gyda dau doriad. O'r ceisiadau hynny lle na chafwyd unrhyw drafodaeth, roedd y mwyafrif yn estyniadau domestig oedd yn rhaid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â'r cynllun dirprwyo presennol gan fod un llythyr gwrthwynebiad.

## 3. MEYSYDD I'W HADOLYGU

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Cynllunio gefnogi'r newidiadau canlynol i'r cynllun dirprwyo:

a) **Datblygiad perchennog ty** - sy'n esgor ar ddim mwy na thri llythyr gwrthwynebiad gan gymdogion gwahanol ond sy'n cydymffurfio â pholisi UDP ac arweiniad cynllunio atodol – gall y Pennaeth Cynllunio ac Amddiffyn y Cyhoedd ddelio â hwn (Rhan 1 (i))

> ***Sylw*** *- Byddai hyn yn caniatáu i swyddog benderfynu ar ddatblygiad perchennog ty an-nadleuol sy'n cydymffurfio â pholisi ac nad sydd fel arfer yn creu unrhyw ddadl. Rhaid pwysleisio bod y gallu hwn i benderfynu ar geisiadau, lle derbyniwyd gwrthwynebiadau, wedi'i gyfyngu i ddatblygiad perchennog ty lle codir materion manylion yn unig ac felly nad oes unrhyw oblygiadau sirol.*

b) **Ceisiadau gan aelodau i gais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio -** dylai hyn gael ei gyfyngu i'w rhanbarth etholiadol eu hunain a rhaid i Aelodau amlinellu'n glir y materion cynllunio perthnasol sy'n gofyn am benderfyniad Pwyllgor (Rhan 2a (iv)).

> ***Sylw*** *-Bydd Aelodau'n derbyn copïau o'r rhestr wythnosol drwy e-bost neu bost a bydd hyn yn galluogi'r Aelodau i nodi ceisiadau yn eu ward eu hunain lle mae ganddynt bryderon. Mae hyn yn annog trafodaethau anffurfiol rhwng Aelodau a Swyddogion ond, os bydd y pryderon yn parhau, mae gan yr Aelodau'r hawl i ofyn yn ysgrifenedig neu drwy e-bost am i hyn gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. Ni fyddai cyfyngu hyn i ranbarth etholiadol yr Aelodau eu hunain yn atal trafodaethau anffurfiol ar geisiadau y tu allan i ranbarth etholiadol yr Aelodau eu hunain. Fodd bynnag, dylai'r Aelodau nodi bod y Cod Arfer Da i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n delio â Materion Cynllunio'n pwysleisio ym mharagraff 25 " y dylai Aelodau sôn wrth Gynghorydd y Ward, fel mater o gwrteisi, am achosion lle maen nhw'n gofyn am gael bod yn rhan o gynnig datblygiad neu fater o orfodaeth y tu allan i'w ward eu hunain." Gall cyswllt o'r fath olygu y bydd yr Aelod Lleol yn gwneud cais am benderfyniad Pwyllgor.*

c) **Caniatáu gweithredu gan gynnwys achosion o erlyn yn dilyn hysbysebion**. Mewn rhai achosion, byddai hyn yn dilyn gwrthod caniatâd i hysbysebu yn unol â phwerau dirprwyol (Rhan 1(11)).

> ***Sylw*** *- Ni ellir rheoli hysbysebion heblaw er budd amwynder neu ddiogelwch y cyhoedd. Nid yw'r materion yn gymhleth. Mae arddangos hysbysebion heb ganiatâd yn drosedd. Mae angen*

*proses sydyn a syml a gweithredu a fyddai'n ei dro yn atal troseddu'n fwy effeithiol.*

ch) **Caniatáu cyflwyno Rhybudd Cadwraeth Adeilad yn unol â phwerau dirprwyol** (Rhan 1(11)). Rhaid rhoi eglurhad ar yr adran hon o'r cynllun dirprwyo i fod yn berthnasol i gyflwyno rhybuddion perthnasol a dechrau gweithredu.

> ***Sylw*** *- Mae Rhybuddion Cadwraeth Adeiladau'n caniatáu i'r Cyngor atal dymchwel adeilad a all fod yn werth ei restru. Mae'n drefn dal yn ôl er mwyn trafod gyda CADW a'r posibilrwydd o restru adeilad. Yn aml, mae angen hyn ar fyrder.*

3.2 Mae angen newidiadau amrywiol i rai geiriau i adlewyrchu'r newidiadau mewn teitlau ac i egluro rhai adrannau. Mae **Atodiad A** yn cynnwys copi o'r cynllun dirprwyo presennol gyda gwelliannau mewn teip trwm a llinell drwy eiriau i adlewyrchu'r newidiadau arfaethedig.

3.3 Ystyriwyd y meysydd i'w hadolygu fel yr amlinellwyd uchod gan Bwyllgor Archwilio'r Amgylchedd ar 30 Medi 2004. Roedd y Pwyllgor Archwilio'n cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo o barhau i weithredu'r dulliau diogelu, sef parhau i ymgynghori gydag Aelodau Lleol a rhoi manylion ceisiadau sy'n cael eu delio gyda phwerau dirprwyol (gan gynnwys fel eitem sefydlog ar yr agenda mewn Pwyllgor Cynllunio).

3.4 Ar ôl ystyried yr adroddiad hwn, bydd yn rhaid i'r Cyngor Llawn ystyried y newidiadau arfaethedig i'r cynllun dirprwyo yn ei gyfarfod ar 14 Rhagfyr 2004.

3.5 Gan dybio y bydd y cynllun dirprwyo diwygiedig yn cael ei gefnogi, yna bydd yn cael ei weithredu ar geisiadau cynllunio a dderbynnir ar ôl 1 Ionawr 2005. Yna, bydd effaith y newidadau hyn ar weithredu'r Pwyllgor Cynllunio'n cael ei fonitro a'i adolygu. Yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd cyfle i ymestyn cyfle'r cyhoedd i siarad.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio'n cefnogi'r newidadau i'r cynllluniau dirprwyo a amlinellir uchod ac yn **Atodiad A** a bod y gefnogaeth yn cael ei chyfleu i'r Cyngor Llawn.

Nid yw'r atodiad y cyfeiriwyd ato yn yr adroddiad ar gael yn Gymraeg ac mae hynny yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor

**Appendix A**

# SCHEME OF DELEGATION

~~**This revised scheme was approved by Full Council in November 2002 and came into effect on the 1st January 2003**~~

**This revised scheme was approved by Full Council in December 2004 and came into effect on 1 January 2005.**

The scheme is in three parts. Part 1 sets out what the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or Development Control Manager** can do subject to checks and balances in Parts 2 and 3. Part 2 sets out under what circumstances the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or Development Control Manager** cannot exercise decisions. Part 3 sets out decisions which must be taken by Full Council.

***"Close relative" is defined as spouses/partners, parents, children, brothers and sisters.**

## PART 1

The scheme shall authorise the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or the Development Control Manager** to:-

**(1)** determine all types of applications and notifications under the Planning Acts and allied legislation, including ~~in the case of~~ **(i) householder development (development within the curtilage of a single dwelling house), where no more than 3 letters of objection from different neighbours have been received raising material planning objections and subject to the development complying with the Unitary Development Plan/Local Development Plan and approved Supplementary Planning Guidance and (ii)** notifications and determinations, where material planning objection(s) has/have been received**.**

**(2)** determine building plans, certificates and notices, service notices under the Building Act and Regulations and allied legislation

**(3)** submit observations on development proposals for example from neighbouring authorities, exempted organisations, etc.

**(4)** resolve all planning and building regulation enforcement related cases by serving statutory notices as necessary or by taking no further action in accordance with the Committee approved, "Enforcement Policies and Procedures" document and instigate prosecution proceedings

**(5)** to determine the name and numbering of streets subject to prior consultation with local ward member(s) and no adverse views expressed. [Note : naming delegated to Town and Community Councils in some instances]

**(6)** instigate the Emergency Powers provisions in Enforcement related cases where extremely urgent formal action is deemed necessary. This will allow for the service of any Enforcement related statutory notice **including stop notices and temporary stop notices** and seek an injunction subject to prior consultation with the local Ward Member(s) who agree on such action as recommended by Officers. The following signatures will be required in all cases - the Coroprate Director of Environment or the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection**, the County Clerk or the Legal Services Manager and Chair or Vice Chair of the Planning Committee

**(7)** take all necessary ancillary decision/action in exercising statutory planning and building control functions including determining the need for Environmental Impact Assessments and acting on Committee or Full Council resolutions

**(8)** determine applications for grant aid under approved schemes

**(9)** decide the type of appeal subject to Members being consulted and defend the Council's position at appeal or court of law

**(10)** submit observations on consultations on draft documents

**(11)** **serve the relevant notices and** instigate prosecution proceedings in respect of fly posting, **advertisements, untidy land (**Section 215**)**, and listed buildings~~,~~ ~~Enforcement~~ **including** discontinuance notices **and building preservation notices**

# PART 2

The Scheme shall not authorise the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or the Development Control Manager** to:

**A DETERMINE ALL TYPES OF PLANNING APPLICATIONS**

**(i)** on which a material planning objection(s) including those from Town/Community Councils and statutory consultees) has been received in the stipulated time span, which is recommended contrary to objections, other than were allowed for by Part 1 (1)

**(ii)** contrary to the provisions of an adopted development plan, and which is recommended for approval;

**(iii)** contrary to approved Council policies, standards or guidance, and which is recommended for approval;

**(iv**) which any Member requests in writing or by e-mail to the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or the Development Control Manager**, within 21 days of the circulation of details of the application, should be the subject to consideration by the relevant Committee (subject to **the application being in the Electoral Division of the Member and** planning reasons being given);

**(v)** submitted by or on behalf of a Councillor of the authority, Planning Staff, Heads of Service, Director, Chief Executive or their close relative.

**(vi)** submitted by or on behalf of the Council for development except where on Council owned land related to the functions exercised by the Council.

**(vii)** to refuse applications which are retrospective when enforcement action is also recommended unless the enforcement action is delegated to officers by this scheme i.e. Listed building consent **and advertisement** applications;

**(viii)** relating to land in the ownership of a Councillor, Planning Staff, Heads of Service, Director, Chief Executive, or their close relative;

**(ix)** where in the view of the Head of Planning ~~Services~~ **and Public Protection and/or the Development Control Manager** material planning issues in support of the application has been raised by consultees or third parties which warrant consideration by the Planning Committee;

**(x)** remove or vary a condition previously imposed through a resolution of the Planning Committee additional to those recommended by Officers;

**B RESOLVE ENFORCEMENT RELATED CASES**

**(i)** by instigating prosecution proceedings for failure to comply with an order or notice except in those cases listed in Part 1

**(ii)** by serving the following enforcement related statutory notices unless the Emergency Power provisions have been instigated

- Enforcement Notice (other than enforcement notices related to breach of condition)
- Special Enforcement Notice
- Stop Notice **and Temporary Stop Notice**
- Urgent Works Notice
- Repairs Notice
- Legal Injunction

**(iii)** take no further action on enforcement related case that have generated 5 or more complaints from separate addresses in the locality

# PART 3

## DECISIONS RETAINED BY THE FULL COUNCIL

**(i)** Planning applications or other applications which constitute significant departures from the adopted ~~Unitary~~ development plan where the Planning Committee have resolved to grant permission. Significant departures constitute:

**(a)** those proposals which have little or no justification under the terms of the adopted ~~UDP~~ **development plan** e.g. new dwellings in the countryside unrelated to agricultural need, and

**(b)** other proposals which are clearly not allowed for by the adopted ~~UDP~~ **development plan** but where other material considerations justify a departure e.g. economic benefits

**(ii)** Final approval of policies and proposals to be included in the ~~Unitary~~ development plan or any modification or review thereof.

**(iii)** Applications which if refused or approved with conditions attached or a decision on an enforcement matter that would be likely to result in a successful award of costs against the Council at appeal

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**27 HYDREF 2004**

**EITEM RHIF 6**

## ADRODDIAD ER GWYBODAETH

### Eglurhad ynghylch rôl y Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn Sir Ddinbych

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn nodi rôl a statws y Cyllun Datblygu Unedol (CDU) a'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn Sir Ddinbych yn dilyn cais am eglurhad yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio ym mis Medi.

## 2. CEFNDIR

2.1 Mae rhai Aelodau'n ansicr ynghylch rôl a statws y CDU, yn enwedig o gofio'r angen i adolygu'r ddogfen a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynhyrchu CDLl yn lle CDU. Ceisia'r ddogfen hon esbonio rôl a statws y ddwy ddogfen.

## 3. Cynlluniau Datblygu Unedol:

3.1 Yn dilyn ad-drefnu llywodraeth leol yn 1996 roedd yn ofynnol i'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Unedol (CDU) ar gyfer ei ardal. Bwriad CDU yw darparu sylfaen gadarn ar gyfer penderfyniadau rhesymol a chyson wrth ystyried ceisiadau ac apeliadau cynllunio. Mae Adran 54a y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol penderfynu ar gais neu apêl cynllunio:

*"yn unol â'r cynllun mabwysiedig, onibai bod ystyriaethau perthnasol yn nodi fel arall. Ac i'r gwrthwyneb, ni ddylid caniatáu ceisiadau nad ydynt yn unol â'r polisïau perthnasol yn*

*y cynllun onibai bod ystyriaethau perthnasol yn cyfiawnhau rhoi caniatâd cynllunio."*

3.2 Gyda system gynllunio o'r fath wedi'i seilio ar gynllun, dylai CDU roi sicrwydd i ddatblygwyr a'r cyhoedd ynghylch y math o ddatblygiad a ganiateir mewn lleoliad penodol.

3.3 Mae paratoi CDU yn cymryd sawl blwyddyn o lunio'r drafft cyntaf hyd at ei gadarnhau'n derfynol (ei 'fabwysiadu') gan y Cyngor Llawn. Pan gaiff ei fabwysiadu mae'r CDU yn goresgyn unrhyw gynllun datblygu arall sy'n cael ei ddefnyddio yn y sir.

3.4 CDU Sir Ddinbych oedd y CDU cyntaf i'w fabwysiadu yng Nghymru ar 4 Gorffennaf 2002, gan ddisodli Cynllun Lleol Glyndwr, Cynllun Lleol Rhuddlan, Cynllun Lleol Rhuddlan a Chynllun Strwythur Clwyd, sef y cynlluniau datblygu mabwysiadu oedd yn bodoli ar y pryd yn ardal Sir Ddinbych. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae Sir Ddinbych yn parhau i fod yr unig awdurdod datblygu lleol yng Nghymru sydd wedi cynhyrchu CDU mabwysiedig.

3.5 Gellir defnyddio CDU 'drafft' fel 'ystyriaeth berthnasol' wrth benderfynu ar gais cynllunio. Fodd bynnag, nid oes ganddo'r statws statudol a roir i gynllun 'mabwysiedig' gan Adran 54a o Ddeddf 1990 h.y. gellir ystyried polisi neu gynnig mewn cynllun drafft, ond nid yw'n goresgyn y polisïau a gynhwysir yn y cynllun mabwysiedig sydd bob amser yn cael y flaenoriaeth mewn penderfyniadau cynllunio. Yr agosaf yw cynllun drafft at gael ei fabwysiadu y mwyaf o bwysau y gellir ei roi i'r polisïau a'r cynigion ynddo – yn enwedig os na wrthwynebwyd y polisïau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Felly mae'n arferol i awdurdodau cynllunio lleol fod â dau gynllun datblygu (cynllun mabwysiedig a'r cynllun diweddaraf sydd wrthi'n cael ei lunio). Rhaid adolygu Cynlluniau Datblygu bob 5 mlynedd, ac o gofio eu bod yn cymryd sawl blwyddyn i'w cynhyrchu, mae'n gylchred gynhyrchu barhaus.

## 4. Adolygu'r CDU

4.1 CDU Sir Ddinbych yw'r cynllun <u>mabwysiedig</u> ar gyfer Sir Ddinbych a bydd yn parhau felly nes daw cynllun mabwysiedig arall yn ei le – bydd hyn yn cymryd nifer o flynyddoedd.

4.2 Er mwyn bodloni targedau'r Llywodraeth o adolygu ein Cynllun Datblygu bob 5 mlynedd, mae gwaith cefndir wedi dechrau o ran adolygu'r CDU presennol. Ein nod yw ymgynghori ynghylch y prif faterion ym mis Ebrill 2005, gan anelu at gynhyrchu'r prif ddrafft cyntaf (y cyfeirir ato fel y ddogfen Adneuo) yr hydref nesaf.

4.3 Dangosir amserlen llawn ar gyfer yr adolygiad CDU yn Atodiad 1. Sefydlwyd Gweithgor Adolygu'r CDU yn cynnwys 12 Aelod ac mae'n cyfarfod yn fisol – mae'r gweithgor hwn yn ystyried y gwahanol faterion datblygu a defnydd tir sy'n berthnasol i adolygiad y cynllun datblygu. Mae croeso i bob Aelod fynychu cyfarfodydd y Gweithgor a gwneud cyfraniad.

## 5. Newidiadau deddfwriaethol a chyflwyno Cynlluniau Datblygu Lleol

5.1 Newidiodd y ddeddfwriaeth gynllunio yng Nghymru a Lloegr yn ddiweddarach eleni pan gyflwynwyd y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004. Mae'n cynnwys goblygiadau o ran cynhyrchu cynlluniau datblygu yng Nghymru. Ni fydd cynlluniau datblygu newydd yn cael eu galw'n Gynlluniau Datblygu Unedol mwyach, byddant yn cael eu hadnabod fel Cynlluniau Datblygu Lleol. Rhaid pwysleisio nad yw'r is-ddeddfwriaeth ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol h.y. y ddogfen ganllaw yn nodi sut y dylid eu cynhyrchu, wedi'i chyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru eto. Felly nid yw Cynlluniau Datblygu Lleol yn rhan ffurfiol o'r system gynllunio eto. Nod Llywodraeth y Cynulliad yw cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth yn yr Hydref 2005.

5.2 Ymddengys mai bwriad Llywodraeth y Cynulliad yw y bydd y Cynlluniau Datblygu Lleol yn ddogfennau meiniach na'r Cynlluniau Datblygu Unedol, gyda llai o bolisïau manwl. Bydd y

broses o baratoi CDLl ychydig yn wahanol i'r broses ar gyfer CDU. Fodd bynnag, mae egwyddor a strwythur sylfaenol y CDLl yn debygol o barhau'n debyg iawn. Disgwylir i'r canllawiau ynghylch cynhyrchu'r ddogfen gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Tachwedd 2005.

5.3 Unwaith y bydd y canllawiau hyn yn bodoli yr Hydref nesaf bydd Sir Ddinbych yn anelu at gyhoeddi ei gynllun datblygu diwygiedig – CDLl drafft Sir Ddinbych – gynted ag y bo modd. Bydd y ddogfen hon yn destun proses ymgynghori gynhwysfawr ac ymchwiliad cyhoeddua – ac mae'n debygol o gael ei fabwysiadu yn 2007. Y peth pwysig i'w gofio yw bydd y CDU yn parhau i fod yn gynllun datblygu mabwysiedig y sir tan hynny, a bydd penderfyniadau cynllunio yn cael ei seilio arno.

## 6. ARGYMHELLIAD

6.1 Adroddiad er gwybodaeth yn unig yw hwn. Dylai Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad sy'n nodi rôl a statws y Cynllun Datblygu Unedol a'r Cynllun Datblygu Lleol yn Sir Ddinbych.

**Appendix 1**

## Draft Indicative Timetable for the Review of the UDP

(dates have not been provided beyond November 2005 because the proposed LDP production process has not been published by Welsh Assembly yet)

| | |
|---|---|
| Background Studies / Information gathering exercises including, among others,:<br>• Retail and Town Centre Study;<br>• Employment Study;<br>• Population & Housing Study;<br>• Urban Capacity Study;<br><br>Monthly UDP Review Working Group Meetings. | Ongoing |
| Publication of 'Issues Papers' (highlighting the main issues relevant to the revised development plan in Denbighshire) | April 2004 |
| Publication of Deposit LDP (this is the main draft Local Development Plan) | Probable date: November 2005 |

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**27 HYDREF 2004**
**EITEM RHIF 7**

**ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# EITEMAU ER GWYBODAETH I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Bwriedir cael eitem agenda sefydlog yn y Pwyllgor Cynllunio i gyfeirio Aelodau at wybodaeth am y polisïau a'r canllawiau sydd ar fin ymddangos a chyhoeddiadau defnyddiol eraill.

1.2 Bydd y wybodaeth a ddarperir i Aelodau yn cael ei chyfyngu i ddisgrifiad cryno o'r ddogfen berthnasol a chyfeiriad at ffynhonnell y ddogfen (cyfeiriad rhwyngrwyd/mewnrwyd). Hefyd bydd yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o unrhyw oblygiadau allweddol i broses gwneud penderfyniadau'r Pwyllgor Cynllunio.

## 2. EITEMAU ER GWYBODAETH

2.1 Yn y Pwyllgor Cynllunio diwethaf gofynnodd yr Aelodau am gael manylion am y polisïau a'r gweithdrefnau presennol sy'n effeithio ar waith y Pwyllgor Cynllunio. Y dogfennau isod yw'r dogfennau allweddol:

i) Cynllun dirprwyo (hefyd yn destun adroddiad yn y cyfarfod hwn).
Ffynhonnell : www.sirddinbych.gov.uk – A - Y – Cynllunio – Cynllun Dirprwyo

ii) Cod Arferion Gorau i Gynghorwyr a Swyddogion sy'n ymdrin â materion cynllunio.
Ffynhonnell : www.sirddinbych.gov.uk – A - Y – Cynllunio – Cod Arferion Gorau

iii) Panelau Archwiliad Safle
Ffynhonnell : www.sirddinbych.gov.uk – A - Y – Cynllunio – Canllawiau ar gyfer Panelau Archwiliad Safle

iv) Hawl y cyhoedd i siarad yn y Pwyllgor Cynllunio
Ffynhonnell : www.sirddinbych.gov.uk – A - Y – Cynllunio – Siarad mewn Pwyllgor

v) Mae gweithdrefnau eraill wedi'u mabwysiadu gan y Pwyllgor Cynllunio o dro i dro ond nid yw'r rhain ar gael mewn fformat electronig ar hyn o

bryd. Bydd copi o'r gweithdrefnau hyn ar gael yn Ystafell yr Aelodau cyn cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio. Byddant yn cynnwys *Apeliadau Cynllunio a Chyfraniad Aelodau* a *Gweithdrefnau Pwyllgor – Cyfraniad Swyddog Priffyrdd.* Gellir darparu copi o'r adroddiadau hyn i Aelodau pan geir cais i'r perwyl hynny. Cysylltwch â Gwen Butler, Uwch Swyddog Gweinyddol ar 01824 706715 neu gwen.butler@sirddinbych.gov.uk os gwelwch yn dda.

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**27 Hydref 2004**
**EITEM AGENDA RHIF 8**

## ADRODDIAD GAN Y PENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD

# DYDDIAD YMWELIADAU SAFLE

**1. DIBEN YR ADRODDIAD**

**1.1** Cynghori Aelodau am ddyddiad tebygol unrhyw Ymweliadau Safle y gofynnir amdanynt gan y Pwyllgor Cynllunio.

**2. DYDDIAD YR YMWELIADAU SAFLE**

**2.1** Mewn ymgynghoriad ag Adran Clerc y Sir, penderfynwyd mai dydd Llun, **1 Tachwedd 2004** yw'r dyddiad mwyaf addas. Mae'r dyddiad hwn wedi ei neilltuo'n ddarpariaethol.

**2.2** Felly fe'ch cynghorir y bydd unrhyw ymweliadau safle a drefnir heddiw yn cael eu cynnal **ddydd Llun, 1 Tachwedd 2004.**

**3. AELODAETH Y PANEL YMWELIADAU SAFLE**

**3.1** Bydd hyn yn dibynnu ar Gydbwysedd Gwleidyddol.

**4. ARGYMHELLIAD**

**4.1 Bod yr Aelodau'n cytuno i gynnal yr Ymweliadau Safle ddydd Llun, 1 Tachwedd 2004.**

**PWYLLGOR CYNLLUNIO**
**CYFARFOD: 27ain Hydref 2004**
**EITEM: 9**

# Penderfyniadau wedi eu gwneud gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd o dan Pwerau Dirprwyedig 1af Medi 2004 - 30th Medi 2004

## Eitem er gwybodaeth

**Mae hon yn rhestr o geisiadau lle gwnaed y penderfyniad eisoes dan bwerau dirprwyedig. Os ydych chi'n dymuno trafod y cais/penderfyniad, cysylltwch â'r Swyddog fu'n ymwneud â'r cais os gwelwch yn dda.**

## MATHAU O BENDERFYNIAD

| | |
|---|---|
| **CANIATÁU (GRANT)** | **- caniatáu caniatâd cynllunio** |
| **GWRTHOD (REFUSE)** | **- gwrthod pob math o gais** |
| **CYMERADWYO (APPROVE)** | **- cymeradwyo materion neu amod a neilltuwyd** |
| **CANIATÂD (CONSENT) -** | **caniatáu caniatâd adeilad rhestredig, ardal gadwraeth neu ganiatâd hysbyseb** |
| **BARNU (DEEMED)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd hysbyseb** |
| **DIM GWRTHWYNEBIAD gadwraeth (NO OBJ)** | **- dim gwrthwynebiad i waith ar goeden/coed mewn ardal** |
| **NID YW'N OFYNNOL (NOT REQ)** | **- nid yw'n ofynnol cael caniatâd ar gyfer y gwaith arfaethedig** |
| **PENDERFYNWYD (DETERMIN)** | **- penderfynwyd nad yw'n ofynnol cael cymeradwyaeth o flaen llaw neu'n cael ei ganiatáu pan benderfynir ar y cais (rhai gweithiau telecom a gwaith amaethyddol penodol)** |
| **DATBLYGIAD A GANIATEIR cais (P DEV)** | **- canfuwyd fod y cais yn ddatblygiad a ganiateir ar ôl derbyn y** |
| **TYNNWYD YN ÔL (WDN)** | **- tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeisydd** |
| **ANNILYS (INVALID)** | **- canfuwyd fod y cais yn annilys** |
| **ARDYSTIO (CERTIFY)** | **- cyflwynwyd tystysgrif defnydd cyfreithlon** |
| **G ARDYSTIO (RCERTIFY)** | **- gwrthodwyd cyflwyno tystysgrif defnydd cyfreithiol** |

**copïau ychwanegol ar gael**